Gwasanaeth **Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Careers & Employability** Service

# CANOLFANNAU ASESU

Mae gwahoddiad i ddod i ganolfan asesu'n golygu eich bod fel rheol wedi llenwi ffurflen gais yn llwyddiannus, a hefyd efallai gwblhau profion seicometreg a chyfweliad cyntaf. Mewn canolfannau asesu fel rheol bydd angen i chi gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau am ddiwrnod neu ddau, gyda thîm o ddewiswyr yn cadw golwg arnoch drwy gydol yr amser. Mae gweithgareddau nodweddiadol yn cynnwys:

- Ymarfer Gwaith yn Dod i Mewn neu Waith i Fynd Allan
- Ymarfer(ion) grŵp, yn cynnwys Astudiaethau Achos a Chwarae Rhan
- Cyflwyniad
- Profion seicometrig
- Cyfweliad
- Digwyddiadau cymdeithasol

**<u>Ymarfer Gwaith yn Dod i Mewn neu Waith i Fynd Allan</u>**

Rydych yn cael nifer o ddogfennau (heb fod mewn unrhyw drefn pwysigrwydd), yn cynnwys negeseuon e-bost, llythyrau, nodiadau, adroddiadau a negeseuon ffôn. Yna mae'n rhaid i chi eu rhoi yn nhrefn pwysigrwydd a phenderfynu sut i weithredu ynghylch pob un, yn cynnwys llunio ymatebion iddynt. Rhaid i chi wneud hyn o fewn cyfnod penodedig. Diben yr ymarfer hwn yw profi pa mor dda yr ydych yn blaenoriaethu a gwneud argymhellion ynghylch swm sylweddol o wybodaeth o fewn cyfnod pendant. Mae'r sgiliau sy'n cael eu hasesu'n cynnwys: meddwl yn ddadansoddol, blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau, gweithio o dan bwysau a rheoli amser.

**<u>Ymarferion Grŵp</u>**

Gall gweithgareddau grŵp gynnwys astudiaethau achos ac/neu chwarae rhan.
Mae ymarferion Astudiaeth Achos yn golygu cael portffolio o wybodaeth yn ymwneud â sefyllfa/problem neilltuol ac mae'n rhaid i'r grŵp gynnal trafodaeth a dod i benderfyniad neu argymhelliad i ddatrys y broblem. Byddant yn cyflwyno hynny i'r panel o aseswyr. Mae'r rhain yn cynnwys chwarae rhan yn aml – gellir rhoi rôl i bob aelod o'r grŵp a rhoi brîff iddynt ar gyfer y drafodaeth ddilynol. Fel rheol, nod y trafodaethau astudiaeth achos/chwarae rhan yw dod i benderfyniad yn ymwneud ag anghydfod arbennig, e.e cynnig i leoli canolfan siopa newydd ar gyrion dinas mewn lle sy'n sensitif o safbwynt yr amgylchedd. Mae'n bwysig eich bod yn bositif a brwdfrydig drwy gydol yr ymarfer. Nid y siaradwr uchaf ei gloch neu'r sawl sy'n ceisio ymwthio i'r blaen sy'n gwneud yr argraff orau bob amser. Ond, ar y llaw arall, nid yw'r sawl sy'n hollol dawel a ddim yn cyfrannu at y drafodaeth o gwbl yn gwneud argraff chwaith. Mae cael syniadau, gallu dadansoddi a datrys problemau, hunanhyder, dangos cydymdeimlad at eraill, gallu gwrando, crynhoi a symud y cyfarfod yn ei flaen yn bwysig iawn, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r amser gan ei bod yn bwysig bod y grŵp yn dod i ganlyniad boddhaol o fewn yr amser a roddwyd. Bydd y dewiswyr yn edrych ar sut mae pobl yn ymwneud â'i gilydd, yn cyd-drafod, cynnig syniadau, cyfathrebu a chyfrannu i'r grŵp ac ymdopi dan bwysau.

**Profion Seicometrig**

Mae profion yn rhoi tystiolaeth wrthrychol i gyflogwyr bod gennych rai o'r galluoedd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac fel rheol maent yn cynnwys ystod o brofion addasrwydd a phersonoliaeth.

Fel rheol mae profion addasrwydd yn cynnwys rhesymu geiriol a rhifyddol, a rhesymu gyda diagramau neu brofion ymwybyddiaeth arbennig. Rydych yn eu sefyll o dan amodau arholiad ac mae'n rhaid eu cwblhau o fewn yr amser a roddir. Yn ystod y prawf ei hun peidiwch â chynhyrfu a chanolbwyntiwch eich gorau arno. Ceisiwch weithio mor gyflym a chywir ag y gellwch. Os nad ydych yn gwybod ateb, nodwch eich dewis gorau yn hytrach na dyfalu, gan fod profion weithiau'n cael eu marcio'n negyddol (h.y. tynnir marciau am atebion anghywir).

Ni ellwch ymarfer gwneud Profion Personoliaeth – nid oes atebion 'cywir/anghywir' ac nid oes diben i chi geisio 'bod' y person delfrydol o safbwynt y cwmni oherwydd maent yn cynnwys gwiriadau mewnol i archwilio cysondeb.

Paratoi ar gyfer profion drwy:

- Roi cynnig ar wahanol fathau o brofion ymarfer - dylai hyn helpu i leihau eich pryder a chynyddu eich hyder - gweler yr adran adnoddau ar y diwedd.
- Loywi eich sgiliau llythrennedd sylfaenol, e.e. sut i weithio allan ganrannau. Lawrlwythwch gopi o 'A Numeracy Refresher' (gweler y linc dan Adnoddau) sydd wedi'i ysgrifennu'n arbennig i roi ymarfer mewn prosesau rhifyddol sylfaenol i unrhyw un sy'n wynebu profion dewis gan gyflogwyr.

**Cyflwyniad**

Efallai y cewch deitl neu ddewis o deitlau i baratoi ymlaen llaw neu pan fyddwch yn cyrraedd y ganolfan asesu. Efallai hefyd y gofynnir i chi baratoi cyflwyniad ar yr argymhellion o un o ymarferion y grŵp ac yn yr achos hwnnw gellwch ddisgwyl cael eich holi ar y pwyntiau a wneir gennych yn eich cyflwyniad. Unwaith eto mae'n bwysig cadw at yr amser a ganiateir i chi.

**Cyfweliad**

Rydych yn debygol o gael cyfweliad, neu gyfweliadau, a all fod gydag unigolyn ac/neu banel o aseswyr. Mae'r holi'n debygol o fod yn ddyfnach a mwy heriol nag mewn unrhyw gyfweliad blaenorol ond mae'r holl gyngor ar gyfweliadau'n briodol yma hefyd (gweler taflen y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyfleoedd ar 'Sgiliau Cyfweliad').

**Digwyddiadau Cymdeithasol**

Mae'r rhain fel rheol yn anffurfiol a gallant gynnwys cinio neu swper gyda rheolwyr a hyfforddeion graddedig diweddar yn y sefydliad. Bydd yr awyrgylch anffurfiol yma'n rhoi cyfle i chi ymlacio a dod i adnabod cyd ymgeiswyr, ond cofiwch ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol bob amser - y peth gorau yw meddwl bod rhywun 'yn cadw golwg arnoch' o'r funud rydych yn cyrraedd. Manteisiwch ar y cyfle i siarad â staff er mwyn dod i wybod mwy am y sefydliad a sut brofiad yw gweithio yno i raddedigion newydd. Peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau!

**Awgrymiadau Ar Gyfer Canolfannau Asesu**

- Ailddarllenwch eich ffurflen gais. Atgoffwch eich hun o'ch cryfderau a pham rydych eisiau'r swydd.
- Ymchwiliwch drachefn i'r sefydliad, i'r swydd a'r cymwyseddau allweddol y mae'r cwmni'n chwilio amdanynt. Ewch yn ôl at eu gwefan rhag ofn bod deunydd newydd yno.
- Meddyliwch beth rydych yn mynd i'w wisgo a rhoi'r dillad amdanoch ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn gyfforddus.
- Gofalwch eich bod yn gwybod am faterion cyfoes trwy ddarllen papur newydd o safon – weithiau mewn trafodaeth grŵp gofynnir i chi ymdrin â mater sydd yn y newyddion bryd hynny.
- Paratowch at brofion addasrwydd drwy gael digon o ymarfer. Gweler lincs yn Adnoddau.
- Os oes gennych anabledd ac angen i addasiadau gael eu gwneud ar eich cyfer mewn canolfan asesu, cysylltwch â'r cyflogwr ymlaen llaw – mae hyn yn bwysig iawn os yw'r ganolfan asesu'n cynnwys profion seicometrig.
- Gwrandewch yn ofalus ar y cyfarwyddiadau a roddir i chi ar ddechrau pob ymarfer.
- Os ydych yn teimlo nad ydych wedi gwneud yn dda iawn mewn un ymarfer, ceisiwch anghofio amdano a bwrw ymlaen gyda'r un nesaf.
- Ceisiwch fwynhau'r profiad! Os gellwch, ymlaciwch a byddwch yn chi eich hun – byddwch yn sicr o gael budd ohono.

**Adnoddau**

**Gwefannau:**

http://targetjobs.co.uk/careers-advice/assessment-centres
Gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr ynglŷn â phob agwedd ar ganolfannau asesu.

http://targetjobs.co.uk/careers-advice/psychometric-tests
Gwybodaeth am brofion addasrwydd, meddwl beirniadol a phrofion barnu sefyllfaol a phrofion personoliaeth, gyda chysylltiadau â phrofion ymarfer ar-lein am ddim. Hefyd awgrymiadau gwych ar sut i baratoi ar gyfer profion seicometrig.

http://prospects.ac.uk/interview_tips_interview_tests_and_exercises.htm
Awgrymiadau ar sut i ymdrin ag astudiaethau achos, ymarferion mewnflwch a chyfweliadau mewn canolfannau asesu.

www.wikijob.co.uk/wiki/assessment-centre
Gwybodaeth fanwl am ganolfannau asesu – mae angen ichi gofrestru ac yna gofnodi.

www.assessmentday.co.uk/
Ymarfer profion ac ymarferion addasrwydd go iawn (cynnwys ymarferion am ddim)

www.mathcentre.ac.uk/types/practice-and-revision/numeracy-skills/
Lawrlwythwch y daflen "Numeracy Refresher" (rydym yn ei chymeradwyo'n fawr er mwyn ichi adennill eich hyder ym maes rhifedd!)

https://www.bangor.ac.uk/careers/employability-sec/careervids.php.en
Mae fideos ar-lein, a gynhyrchwyd gan yr Association of Graduate Careers Advisory Services (AGCAS), yn ymdrin ag agweddau ar chwilio am swyddi a chyflogadwyedd. Bydd angen eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Bangor i fynd at y rhain. Yn y fideo "At the Assessment Centre" ceir adrannau byrion ar:

- Cyflwyno
- Chwarae rhan
- Ymarfer delio â gwaith sy'n dod i mewn
- Trafodaeth grŵp
- Pryd o fwyd gyda'r dewiswyr
- Astudiaeth achos
- Cyfweliad

**Llyfrau Cyfeirio (ar gael ym Mhrif Lyfrgell y Brifysgol a hefyd yn Llyfrgell y Normal a Llyfrgell Deiniol – edrychwch yng nghatalog y llyfrgell i weld pryd y byddant ar gael):**

'How to Succeed at an Assessment Centre', Harry Tolley & Robert Wood
'The Graduate Psychometric Test Workbook', Mike Bryon
'Management Level Psychometric & Assessment Tests', Andrea Shavick
'How to Pass Professional Level Psychometric Tests', Sam Al-Jajjoka

Chwefror 2019